*Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru I adroddiad Pwyllgor Archwilio'r Cynulliad Cenedlaethol ynglŷn â'r Archwiliad Ariannol o Gyrff Llywodraeth Ganol a'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru 2006: Adroddiad Pwyllgor (2) 12-06*

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ddiolchgar am yr adroddiad. Yr ydym yn croesawu'r canfyddiadau ac yn cynnig yr ymateb canlynol i'r naw argymhelliad sydd yn yr adroddiad.

**1 Wrth wneud amserlenni a chynlluniau prosiect cyffredinol ar gyfer paratoi ei gyfrifon blynyddol, dylai Llywodraeth y Cynulliad ddarparu'n ddigonol i reolwyr allu adolygu a chadarnhau ansawdd y cyfrifon a'r atodlenni cefndir cyn eu cyflwyno i gael eu harchwilio. Dylai hyn hefyd fod yn wir ar gyfer cyrff eraill sy'n cael eu cynnwys yn yr adroddiad hwn. Ble mae diffygion yn ansawdd paratoi cyfrifon yn cael eu nodi gan reolwyr neu archwilwyr, dylai'r rhain gael sylw trwy hyfforddiant neu trwy wella systemau fel bo angen.**

Derbyn.

Mae'r Bwrdd Prosiect Cyfrifyddu Adnoddau wedi rhoi cychwyn ar drefn gynllunio fanwl ar gyfer paratoi ac archwilio holl gyfrifon 2006-07 a fydd yn cael eu cynhyrchu gan Lywodraeth y Cynulliad. O fewn y cynllun, neilltuwyd amser i reolwyr uwch adolygu'r cyfrifon drafft ac i dimau cynhyrchu cyfrifon eu diwygio fel y bo'r angen. Bydd canllawiau'n cael eu cyhoeddi cyn diwedd y flwyddyn ariannol i roi arweiniad i reolwyr uwch ynglŷn â'r hyn y mae adolygiad cadarn yn ei olygu. Mae gwersi wedi cael eu dysgu ynglŷn â beth sy'n llwybr archwilio eglur a chynhwysfawr a beth sy'n cyfrannu ato. Gyda chymorth Swyddfa Archwilio Cymru mae gwelliannau pellach yn cael eu sefydlu ar gyfer cyfrifon eleni, er enghraifft cyfarfodydd mwy rheolaidd ar lefel uchel rhwng Cyllid a'r archwilwyr, dadansoddiad strwythuredig o'r materion cyfrifyddu sy'n codi yn ystod yr archwiliad, yn nhrefn pwysigrwydd, a chysoniad mwy cynhwysfawr rhwng y balans prawf a'r cyfrif.

**2 Fe ddylai Llywodraeth y Cynulliad fodloni'i hun fod ei threfniadau rheoli grantiau, yn cynnwys y dulliau rheoli'r system grantiau cyfrifiadurol newydd, yn rhoi sylw llawn i'r pryderon sydd wedi'u lleisio gan yr archwilwyr mewnol a'r archwilwyr allanol. Dylai hefyd ofyn am gadarnhad gan Swyddogion Cyfrifyddu perthnasol y cyrff a noddir fod ganddynt ddulliau rheoli cryf (yn cynnwys gweithdrefnau ysgrifenedig diweddar) i reoli'u gwariant grantiau, neu eu bod fel arall yn gweithredu'r gwelliannau angenrheidiol**

Derbyn.

Mae'r gyfundrefn 'e-Grantiau' wedi cael ei gweithredu fesul cam ar draws Lywodraeth y Cynulliad yn unol â'r dyddiad yr anelwyd ato, sef Rhagfyr 2006. Hefyd mae'r hyfforddiant gorfodol mewn defnyddio'r gyfundrefn wedi cael ei gwblhau. Bydd y gwasanaethau archwilio mewnol yn cynnal arolwg o'r ffordd y mae'r drefn yn gweithio yn y Gwanwyn, unwaith ei bod wedi cael ei sefydlu'n

llawn.

Er mwyn ategu cyflwyniad yr ‘e-Grantiau’ bydd modiwl hyfforddiant diwygiedig sy’n canolbwyntio ar reoli a monitro cynlluniau grantiau yn effeithiol yn dod yn rhan orfodol o raglen hyfforddi yr Adran Gyllid - ‘Rheoli Arian y Cynulliad – Ei Wneud yn Iawn’. Bydd y modiwl yn cymryd i ystyriaeth y cwestiynau a godir gan y Gwasanaethau Archwilio Mewnol a gan Swyddfa Archwilio Cymru yng nghwrs eu gwaith archwilio. Cafodd y modiwl ei dreialu ddiwedd mis Tachwedd 2006 a bydd yn cael ei weithredu fesul cam ym mis Chwefror 2007. Bydd yn cael ei ddarparu ar y cyd gyda Swyddfa Archwilio Cymru.

Yn ychwanegol at hynny, mae telerau ac amodau craidd Llywodraeth y Cynulliad mewn perthynas â grantiau yn cael eu hadolygu a’u cryfhau. Mae trefniadau hefyd mewn llaw i sefydlu Cymuned Faes mewn perthynas â rheoli grantiau o fewn Llywodraeth y Cynulliad. Diben hynny fydd cyfnewid syniadau a nodi a dosbarthu arferion da a chanllawiau. Yr ydym yn ceisio cadarnhad gan Swyddogion Cyfrifyddu’r Cyrff a Noddir perthnasol, bod trefniadau rheoli cadarn yn bodoli ar gyfer rheoli eu gwariant grant.

**3 Wrth ddatblygu ei threfniadau rheoli asedau, dylai Llywodraeth y Cynulliad ddefnyddio’r profiad ymarferol sylweddol sydd gan y GIG yn y maes hwn. Dylai Llywodraeth y Cynulliad hefyd atgoffa cyrff y llywodraeth ganolog a chyrff y GIG am yr angen i bob un ohonynt adolygu’n flynyddol eu hasedau sefydlog i gael tystiolaeth o unrhyw ddiffygion, ac am newidiadau mewn gwerthoedd ac oesau economaidd defnyddiol.**

Derbyn.

Wrth ddatblygu ei drefniadau rheoli asedau, mae Llywodraeth y Cynulliad yn defnyddio profiad ac arbenigedd ar draws yr adrannau gan gynnwys y Gwasanaeth Iechyd Gwladol. Yn y dyfodol byddwn yn adolygu ac uwchraddio’r Cynllun Rheoli Asedau yn flynyddol. Wrth wneud hynny byddwn yn cysylltu’r wybodaeth gyda’r cylch rheoli cyllideb a’r adolygiad parhaus o wariant yn fwy cyffredinol. Ar ben hynny byddwn yn canolbwyntio ar berthnasu canlyniadau a deilliannau gwariant cyfalaf i nodau ac amcanion polisi’r Llywodraeth.

Fel rhan o’i arolwg diwedd blwyddyn ac arolwg Mis 9 o Asedau Sefydlog, mae’r Adran Gyllid yn gofyn i ddeiliaid asedau yn Llywodraeth y Cynulliad roi gwybod iddo am unrhyw newidiadau yn yr asedau hynny, gan gynnwys unrhyw amhariad ar eu gwerth neu eu hoes ddefnyddiol. Bydd arolwg ym Mis 9 yn golygu bod gwell cyfle i ddatrys materion cyn yr amserlen dynn sy’n bodoli ar ddiwedd blwyddyn.

Mae’r gweithdrefnau cyfrifyddu ar gyfer asedau sefydlog yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yn cael eu nodi yn y Llawlyfr Cyfrifyddu Cyfalaf. Mae’r Llawlyfr yn mynnu’n benodol bod sefydliadau’n ystyried arolwg o amhariad yn flynyddol. Mae’r Llawlyfr wedi cael ei adolygu a’i ail-gyhoeddi ar gyfer 2006-07.

**4 Ble mae cryfderau arbennig yn amlwg o ran systemau talu gan**

**sefydliadau, dylai Llywodraeth y Cynulliad wneud y rhain yn gyhoeddus yn ehangach fel esiamplau o arferion da. Dylai hefyd ofyn i gyrff adolygu pa welliannau pellach a all fod yn angenrheidiol i'w systemau talu yng ngoleuni'u perfformiad hyd yma. Ble mae cyrff yn gyson yn methu â chyfarfod y safon perfformiad talu a ddisgwylir fe ddylai fod yn ofynnol iddynt baratoi cynlluniau gwella gan adnabod y gwendidau yn eu systemau neu'u gweithrediadau a sut y bwriedir mynd i'r afael â'r rhain.**

Derbyn.

Ym mis Medi 2006, cyhoeddodd yr Adran Gyllid ganllawiau diwygiedig ynglŷn â thalu anfonebau yn brydlon, gan gynnwys enghreifftiau o arferion da. O fewn Llywodraeth y Cynulliad cafodd 97% o anfonebau eu talu mewn pryd yn ystod y naw mis hyd at 31 Rhagfyr 2006.

Hefyd, ar 4 Hydref 2006, cafodd canllawiau diwygiedig eu hanfon at Swyddogion Cyfrifyddu'r Cyrff a Noddir gan y Cynulliad. Datganodd yr ysgrifennydd parhaol eto mor bwysig yw cyflawni targedau arferion da talu'n brydlon pan gyfarfu a swyddogion cyfrifyddu'r Cyrff a Noddir ar 13 Hydref 2006 ac mewn cyfarfod rhwng Prif Weinidog Cymru a Chadeiryddion y Cyrff a Noddir ar 11 Rhagfyr 2006.

Bydd copi o gasgliadau ac argymhellion y pwyllgor, ynghyd â chopi o'r ymateb hwn, yn cael ei anfon at Swyddogion Cyfrifyddu'r Cyrff a Noddir (ac yn cael ei ddosbarthu i is-swyddogion cyfrifyddu Llywodraeth y Cynulliad). Byddwn yn gofyn am gadarnhad y byddant yn adolygu eu gweithdrefnau presennol o dalu, gyda golwg ar ddod o hyd i welliannau posibl, ac yn gofyn iddynt adrodd yn ôl ynglŷn â chanlyniadau eu harolwg.

**5 I wireddu holl fuddion y strwythur newydd, bydd angen trefniadau rheolaeth ariannol cadarn i gefnogi'r Is Swyddogion Cyfrifyddu i wneud eu rhan. Dylai'r rhain gynnwys, er enghraifft, trefniadau effeithiol ar gyfer rheoli'r gyllideb, darparu gwybodaeth reoli eglur ac amserol, a threfniadau ar gyfer nodi'n rheolaidd y perfformiad ariannol yn erbyn yr amcanion busnes.**

Derbyn.

Cafodd y prosiectau 'e-Brynu' ac 'e-Grantiau' eu cyflwyno ar draws y Cynulliad erbyn diwedd 2006 yn unol â'r amserlen. Bydd hyn yn gwella ansawdd ac amseriad yr wybodaeth am groniadau o adnoddau sydd ar gael i Is-Swyddogion Cyfrifyddu i reoli'u cyllidebau. Mae'r Adran Gyllid yn gweithio gydag is-swyddogion cyfrifyddu o fewn Llywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau y ceir y budd gorau o wybodaeth rheoli gyllidol a fydd yn cael ei ryddhau gan system seiliedig ar adnoddau. Yr amcan yw bod gwybodaeth o'r fath ar gael o un gronfa ddata sy'n rhwydd wrth law.

**6 Dylai Llywodraeth y Cynulliad ddefnyddio'i hanghenion busnes sydd**

**wedi'u diffinio'n glir i benderfynu ar yr wybodaeth ariannol hanfodol fydd yn rhaid ei chynhyrchu fel mater o drefn gan y system. Dylai Llywodraeth y Cynulliad hefyd fod â chynlluniau argyfwng yn weithredol i sicrhau parhad busnes, pe digwydd unrhyw broblemau yn ystod camau cynnar gweithredu'r system newydd.**

Derbyn.

Mae'r gofynion i adrodd yn ôl yn cael eu hadolygu'n barhaus, yn ganolog ac o fewn yr adrannau. Ni fydd darparu gwybodaeth seiliedig ar groniadau mewn cyfrifon misol yn newid llawer ar fformat yr adroddiadau rheolaidd, ond fe fydd yn darparu data ynglŷn â'r gwir wariant. Bydd hynny'n well adlewyrchiad o'r gweithgarwch yn ystod unrhyw gyfnod penodol. Yn ei dro bydd hynny'n rhoi gwell sail o wybodaeth i benderfyniadau busnes fydd eu hangen o ganlyniad i wybodaeth gyfrifyddol rheoli.

Cafodd y drefn 'e-Grantiau' ag 'e-Gaffael' eu gweithredu'n raddol dros gyfnod o naw mis. Roedd yr hen drefn yn cael ei gweithredu ochr yn ochr â'r drefn newydd am y cyfnod ac yn parhau ar gael pe bai'r system newydd yn methu. Bydd yr hen drefn yn parhau i fod ar gael am fis ar ôl cwblhau'r gwaith o weithredu'r gyfundrefn newydd, ac wedyn bydd modd ei hadfer ar fyr rybudd os bo angen. Nid yw'r gyfundrefn newydd wedi cael archwiliad allanol eto, felly bydd y broses o ddynodi croniadau, trwy waith llaw yn bennaf, yn dal i gael eu defnyddio i baratoi cyfrifon 2006/07 er mwyn gwirio'r gyfundrefn newydd.

7 **Mae Llywodraeth y Cynulliad mewn sefyllfa dda i annog yr holl gyrff a archwilir i weithredu'r arferion da perthnasol a nodwyd yn y maes hwn. Er enghraifft, dylai arferion da a ddynodwyd yn y GIG fod ar gael i gyrff y llywodraeth ganolog, fel bo'n briodol (ac fel arall). Dylai Llywodraeth y Cynulliad hefyd feithrin trefniadau rheoli risg cryf o fewn ei hadrannau newydd, mwy. Gallai'r safonau rheoli risg a fabwysiadwyd gan y GIG gael eu defnyddio i hwyluso'r gwaith datblygu hwn.**

Derbyn.

Mae rhannu arferion da yn un o'r ffyrdd y datblygwyd rheoli risg dros y blynyddoedd diwethaf. Mae Cronfa Risg Cymru wedi datblygu corff o arferion da a gododd o bob rhan o Wasanaeth Iechyd Cymru ac sydd ar gael ar ei wefan. Ynghyd â Safonau Rheoli Risg Cymru mae'r arferion da hyn wedi helpu i ddatblygu rheoli risg ar draws y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru. Yn y ddogfen *Risk: Good Practice in Government*, mae Trysorlys ei Mawrhydi yn casglu enghreifftiau o arferion da ar draws llywodraeth ganol.

Mae pob un o'r enghreifftiau hyn o arferion da wedi'n helpu ni i ddatblygu canllawiau o fewn Llywodraeth Cynulliad Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2006 yn y ddogfen *Hanfodion Risg: Fframwaith Rheoli Risg.* Mae copïau o'r canllawiau hyn wedi cael eu rhannu gyda chyrff a noddir can y Cynulliad a chyrff Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

8 **Dylai Llywodraeth y Cynulliad wella ei systemau gwybodaeth i'w galluogi i ddilyn y cynnydd i ymateb i geisiadau Rhyddid Gwybodaeth, i ddadansoddi'r ffactorau sy'n arwain at unrhyw oedi, a monitro a oes unrhyw estyniadau i amserlenni wedi'u ceisio yn unol â'r ddeddfwriaeth. Dylai hefyd gofnodi a monitro costau delio gyda cheisiadau. Hefyd dylai gwell gwybodaeth rheoli yn y maes hwn gynorthwyo gydag arfarnu pa welliannau mewn trefniadau rheoli dogfennau sydd eu hangen, yn awr ac yn y dyfodol, i helpu i brosesu ceisiadau yn fwy effeithiol.**

Derbyn.

Cafodd y system bresennol o ddarparu gwybodaeth ei dylunio er mwyn olrhain cynnydd gyda cheisiadau a hysbyswyd i Uned Mynediad i Wybodaeth Llywodraeth y Cynulliad ac y mae'n gwneud hynny'n foddhaol. Byddwn yn ceisio cyllid i adolygu ac wedyn i wella'r gyfundrefn hon gan ychwanegu dadansoddiad o'r rhesymau am oedi, ymestyn yr amserlen a chost delio gyda cheisiadau. Mae gwybodaeth reoli o'r system yn cael ei dosbarthu'n helaeth ac yn cael ei rhannu'n rheoliad gyda'r prosiect sydd wedi cael ei sefydlu'n ddiweddar i greu cofnod electronig a system rheoli dogfennau ar gyfer Llywodraeth y Cynulliad.

9 **Yr ydym yn sylweddoli fod Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru a Llywodraeth y Cynulliad wedi gwneud llawer o waith da i sicrhau fod hyfforddiant a chyfarwyddyd ar gael i sefydliadau. Yr ydym yn ei ystyried yn hanfodol, fodd bynnag, y dylai'r ffaith fod sefydliad yn gallu cadarnhau yn ei gais am grant fod ei reolwyr prosiect yn gwbl ymwybodol o'r gofynion technegol a'r gofynion cyfrifyddu fod yn rhag-amod rhoi unrhyw grant UE a bod â systemau derbyniol wedi'u sefydlu. Fel arall, rhaid mynnu fod hyfforddiant yn cael ei gynnig i sicrhau mai dyma sy'n digwydd. Er mwyn cynnal trefniant 'achredu' fel hyn, dylai cadarnhad newydd fod yn ofynnol gan sefydliad pryd bynnag y gwneir newidiadau yn y staff allweddol sy'n gyfrifol am reoli ei brosiectau a ariennir gan yr UE.**

Derbyn.

Wrth adolygu prosesau ar gyfer Rhaglenni 2007-2013, mae WEFO'n adolygu ei holl systemau. Mae'n datblygu canllawiau rheoli prosiect manwl sy'n cyfarwyddo pob noddwr ynglŷn â gofynion prosiectau sy'n cael eu cyllido gan yr Undeb Ewropeaidd. Bydd y llythyr cymeradwyo at bob noddwr yn rhestru'r gofynion ac yn mynnu bod y noddwr yn cadarnhau bod holl weithwyr allweddol y prosiect yn ymwybodol o'r gofynion a bod y gofynion i gyd yn eu lle. Ymwelwyd â phob prosiect newydd yn ystod y 12 mis cyntaf er mwyn sicrhau y cydymffurfir a'r gofynion a chynigir canllawiau ynglŷn â gwelliannau a datblygiadau.
Bydd WEFO'n gofalu bod gan yr holl staff allweddol y profiad angenrheidiol neu y byddant yn cael hyfforddiant priodol.